



GWIR. GWEITHGAR. GWYCH.

**Canllaw Mynediad Chweched Dosbarth,
Academi Rhydywaun.**

Nod

Nod Academi Chweched Dosbarth Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun yw darparu addysg o'r radd flaenaf, cyfleoedd amrywiol ac eang a'r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn i bob myfyriwr i wireddu ei botensial a'i ddyheadau i'r dyfodol a hynny mewn awyrgylch Gymraeg a Chymreig.

1. Gofynion Mynediad

Mae blynyddoedd 12 a 13 yn agored i fyfyrwyr sy'n cwrdd â holl ofynion disgwylidig Chweched Dosbarth Ysgol Gyfun Gymraeg Rhydywaun. Disgwylir i bob darpar fyfyrwr gwrdd â'r:

- a. Gofynion academaidd
- b. Gofynion personol.

1.2 Gofynion Academaidd i flwyddyn 12

Graddau TGAU	Derbynnir disgyblion sydd â'r canlyniadau angenrheidiol i wneud y cyrsiau canlynol	Amodau Ychwanegol
5 C neu'n uwch mewn cymhwyster Lefel 2 gan gynnwys y Tystysgrif Her Sgiliau (Sylfaenol)	Tystysgrif Her Sgiliau Uwch yn orfodol i bob myfyriwr Blwyddyn 12, ynghyd â <u>3 Chwrs</u> UG/Uwch a/neu BTEC Lefel 3	Gweler y llawlyfr am amodau a gofynion cyrsiau unigol.
Gradd B yn y pwnc TGAU cyfatebol	Bioleg Cemeg Ffiseg Mathemateg Cymraeg (Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth) Saesneg (Saesneg Iaith a Llenyddiaeth) Cerddoriaeth	Haen Uwch TGAU
Gradd B TGAU Mathemateg	Cemeg Ffiseg TGCh Cymhwysol	Haen Uwch TGAU

Gweler Llawlyfr Opsiynau Blwyddyn 11 am ofynion y cyrsiau galwedigaethol Lefel 3.

1.3 Gofynion Personol

Mae'r myfyriwr wedi:

- Cydymffurfio â disgwyliadau'r ysgol hon o ran y **Côd Ymddygiad, ymdrech ac ymrwymiad** i wersi [yn gyson ym mlynnyddoedd 7 – 11](#).
- Dangos parch at eraill a'u heiddo mewn gwersi a thu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Parchu'r iaith Gymraeg
- Prifathrawes yr ysgol yn unig sydd â'r hawl i ganiatáu i fyfyrwr gofrestru yn hwyr i'r 6ed ar ôl diwedd mis Medi.

Penderfyniad y Brifathrawes sy'n derfynol o ran derbyn myfyriwr nôl i'r Chweched Dosbarth.

2. Paratoi at y Chweched Dosbarth

Dyma grynodedb o'r gweithgareddau a drefnir gan yr ysgol i gynorthwyo'r trosglwyddo i'r Chweched Dosbarth:

Blwyddyn 11:

- Cyfarwyddyd i ddysgwyr Blwyddyn 11 am yrfaeodd a chysiau'r Chweched Dosbarth yn ystod eu tymor olaf ym Ml.11.
- Arolwg myfyrwyr o ddewisiadau pynciau drwy wefan yr ysgol.
- Noson Opsiynau'r Chweched Dosbarth – gwybodaeth wedi rhannu'n rithiol i rieni a myfyrwyr.
- Cyngor onest a di-duedd o ran cyrsiau ysgol a chysiau coleg a'r llwybr addas i unigolion.
- Cyfle i wneud cais swyddogol i gael ymuno â'r Chweched Dosbarth a dewis terfynol o bynciau.
- Cyfweliadau â Phenaethiaid Cynnydd a Lles CA4 a CA5 a'r Uwch Dîm Arwain yn ôl yr angen.
- Diwrnod canlyniadau TGAU a chyfle i drafod dewis pwnc/pynciau neu gwrs/gyrsiau gyda Phenaethiaid Cynnydd a Lles CA4 a CA5.

O ganlyniad i ddewis rhydd myfyriwr efallai y bydd yr ysgol yn penderfynu dileu cyrsiau o'r cynnig. Gall hyn ddigwydd pan bod niferoedd myfyrwyr sy'n dewis astudio cwrs yn isel iawn. Efallai hefyd y bydd adegau pan na fydd dewis y myfyriwr yn bosibl megis:

- Mae myfyriwr yn dewis cwrs nad yw'n addas ar gyfer ei allu academaidd.
- Gall fod gwrthdaro â dewisiadau eraill y mae'r myfyriwr wedi ei wneud.
- Nid yw'r myfyriwr yn cwrdd â'r gofynion academaidd a phersonol.
- Nid oes lle ar y cwrs oherwydd niferoedd.

Penderfyniad y Brifathrawes sy'n derfynol o ran derbyn myfyriwr nôl i'r Chweched Dosbarth.